**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Climate Change and Rural Affairs Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Mawrth 2023

Annwyl Gadeirydd

**MAES AWYR CAERDYDD**

Yn dilyn fy llythyr atoch ar 21 Medi 2022 mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd, rwy'n ysgrifennu i roi diweddariad chwe mis i'r Pwyllgor. Rwyf hefyd yn mynd ar drywydd fy llythyr atoch ar 12 Ionawr 2023 ynglŷn â Wizz Air.

Yn amlwg, rydym yn dal yn siomedig bod Wizz Air wedi gwneud y penderfyniad masnachol i dynnu'n ôl o Faes Awyr Caerdydd. Roedd y cwmni wedi cyfeirio at amodau macro-economaidd cyffredinol fel y rheswm dros y penderfyniad. Nid oedd unrhyw awgrym o unrhyw broblem gyda'r gwasanaethau a'r cymorth i gwsmeriaid a ddarparwyd gan y Maes Awyr i'r cwmni hedfan. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad cyson â thîm gweithredol y Maes Awyr a chyn belled ag y maen nhw'n ymwybodol mae'r cwmnïau hedfan sy'n gweithredu o'r Maes Awyr ar hyn o bryd yn hapus gyda'r gwasanaeth maen nhw'n ei gael. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar hyfywedd y maes awyr yn sgil Wizz Air yn tynnu'n ôl. Mae hyn yn bennaf oherwydd galw mawr am wyliau pecyn gyda Tui o Faes Awyr Caerdydd a hediadau ychwanegol a drefnwyd ar gyfer Cwpan y Byd yn Qatar a digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol yn dychwelyd, fel rygbi'r Chwe Gwlad. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon (diwedd Mawrth 2023) mae'r Maes Awyr yn disgwyl bod tua 55% wedi'i adfer o ran niferoedd teithwyr 2019, gan drin ychydig o dan 900,000 o deithwyr.

Mae'r pecyn achub ac adfer gwerth £42.6m a roddodd Llywodraeth Cymru ar waith wedi'i gynllunio i alluogi Maes Awyr Caerdydd i fod yn hunangynhaliol a phroffidiol yn y dyfodol. Rydym yn gweithio gyda'r Maes Awyr i ddeall yn fanwl effaith Wizz Air yn tynnu'n ôl yn ddiweddar ar yr amserlen ar gyfer hunangynaliadwyedd, ond mae Gweinidogion yn cydnabod y gallai'r llwybr at broffidioldeb fod yn hirach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae ein cynllun adfer yn sgil Covid ar gyfer y Maes Awyr yn parhau i fod ar waith ac er bod y galw'n adfer, mae'r hinsawdd economaidd bresennol, y farchnad lafur dynn a'r gofynion

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rheoleiddiol yn parhau i gyflwyno heriau sylweddol i'r sector hedfanaeth. Disgwylir i bwysau chwyddiant ar gost cynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol roi straen sylweddol ar y gyllideb buddsoddi cyfalaf. Mae Gweinidogion yn ymwybodol o'r risg hon ac wedi rhoi'r dasg i swyddogion weithio gyda gweithrediaeth y Maes Awyr i ystyried mesurau lliniaru posibl.

Rydym yn hapus gyda'r arweinyddiaeth y mae tîm y Maes Awyr wedi'i ddangos ac yn parhau i'w ddangos. Mae'r cynnydd o ran adfer nifer y teithwyr dros y flwyddyn ddiwethaf yn dyst i'w gallu i reoli maes awyr mewn cyfnod cythryblus.

Mae'r Maes Awyr yn gweld cynnydd mewn hediadau o'r Maes Awyr gan gwmnïau fel KLM a Ryanair, sydd wedi cyhoeddi teithiau ychwanegol i Ddulyn, Malaga a Faro yn ddiweddar ar gyfer haf 2023, a llwybr newydd gydol y flwyddyn i Belfast. Deallwn fod Ryanair wedi cyhoeddi yn ddiweddar ei haf mwyaf erioed o hedfan o Gaerdydd, a bod archebion ar draws yr holl wasanaethau yn edrych yn iach ar gyfer tymor y gwanwyn a'r haf sydd ar y gweill, sy'n arwyddion cadarnhaol o adferiad.

**Adroddiadau Chwarterol**

Yn fy llythyr a anfonwyd atoch ar 21 Medi 2022, amlinellais y metrigau a ddefnyddir yn yr adroddiadau chwarterol ar berfformiad y Maes Awyr yn erbyn y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro. Mae'r adroddiad cynnydd isod yn cyfeirio at y metrigau hynny.

**Adroddiad Cynnydd**

O ran cais y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am fonitro ac asesu perfformiad yn erbyn y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro, gallwn rannu'r diweddariadau canlynol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 30 Medi[1]:

- Roedd cyfanswm y teithwyr yn 367,195 ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at fis Medi, 38% yn uwch na'r gyllideb, ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2023.
- Roedd y Maes Awyr wedi tynnu £26.2m i lawr o'i grant achub ac ailstrwythuro gwerth £42.6m.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cael chwe adroddiad chwarterol hyd yn hyn ar y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro gan ei hasiant benthyciadau, Banc Datblygu Cymru (DBW).
- Roedd yr adroddiad diweddaraf ar gyfer chwarter dau (Ch2) a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 yn tynnu sylw bod perfformiad y maes awyr yn parhau i fod yn well na'u rhagolygon ariannol yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol hyd yn hyn.
- Roedd balans arian parod yn parhau'n uchel yn sgil incwm uwch ac arian parod yn cael ei gadw drwy reoli costau'n dynn iawn a gohirio gwario cyfalaf wrth sicrhau bod y Maes Awyr yn parhau i gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol er mwyn gweithredu.

O dan delerau ein cytundebau gyda'r Maes Awyr, mae'n rhaid i'r Maes Awyr ddarparu adroddiad chwarterol i DBW, fel asiant benthyciadau, erbyn dim hwyrach na 45 diwrnod o ddiwedd pob chwarter ariannol. Ar ôl derbyn yr wybodaeth honno gan y Maes Awyr, mae DBW wedyn yn cyflwyno ei adroddiad chwarterol i Lywodraeth Cymru o fewn 20 diwrnod busnes. Mae'r amserlenni hyn yn esbonio'r oedi wrth adrodd ffigurau pob chwarter.

    - Mae'r incwm ar gyfer y tri mis a daeth i ben ar 30 Medi 2022 36% yn uwch na’r gyllideb. Roedd y nifer uwch o deithwyr yn sail i'r incwm traffig, masnachol a maes parcio uwch.

    - Nid yw'r Maes Awyr wedi cyrraedd lefel o broffidioldeb blynyddol hyd yn hyn, yn ôl graddfa EBITDA (Enillion Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio), ond, roedd yn broffidiol yn Ch2 (£0.5m). Er bod LBITDA (Colled Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant, ac Amorteiddio) yn sylweddol well na'r gyllideb yn y flwyddyn hyd yn hyn, mae cyrraedd proffidioldeb blynyddol yn parhau i fod yn darged ar gyfer y dyfodol.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ac wedi cymeradwyo naw cais gan y Maes Awyr hyd yn hyn i wneud gwariant cyfalaf rhwng £50,000 a £1,000,000, sef cyfanswm o £2.2m o gyllideb a gafodd ei chymeradwyo ymlaen llaw o tua £29m, wedi’i chlustnodi tan fis Mawrth 2026. Ystyrid bod yr holl fuddsoddiadau'n gostau gweithredol hanfodol er mwyn sicrhau bod y maes awyr yn parhau i weithredu.

**WGC Holdco**

Yn fy llythyr ar 21 Medi, fe wnes i eich diweddaru bod Gweinidogion Cymru, yn dilyn adolygiad llywodraethu mewnol o WGC Holdco Limited, wedi cytuno i ddau Gyfarwyddwr Anweithredol (NEDs) newydd gael eu penodi ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Holdco, yn lle'r ddau Uwch-was Sifil (SCS). Bydd y Cyfarwyddwr Anweithredol presennol yn cael ei gadw, yn ogystal â lle ar gyfer un Uwch-was Sifil ar y Bwrdd.

Mae'r gwaith recriwtio ar gyfer y Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd ar fin dechrau ac rydym yn gobeithio y byddwn wedi dod â'r broses benodi i ben cyn Toriad yr Haf, gydag amseriad tebyg ar gyfer ein penderfyniad terfynol ar benodi Cadeirydd newydd Holdco. Rwy'n hapus i roi diweddariad ysgrifenedig i chi cyn gynted ag y daw'r materion hyn i ben.

Hyderaf fod cynnwys y llythyr hwn yn bodloni'r ymrwymiad a roddais i chi o ran darparu diweddariad chwe mis, ond os hoffech ragor o wybodaeth neu eglurhad, rhowch wybod i mi.

Yn gywir

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig